



MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL



MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

Adroddiad Monitro a Gwella Blynyddol

Y Gymraeg

2013 - 2014

Paratowyd yn unol â gofynion



Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg 30ain Mehefin 2014

Cynnwys

Tudalen

Cyflwyniad

3

Gwasanaethau Rheng Flaen

4 – 11

Rheoli a Gweinyddu Datganiad y Gymraeg

12 - 15

Prif Ffrydio'r Gymraeg

16 – 17

Dadansoddiad o Berfformiad

18 – 20

Atodiad 1

Cydymffurfiaeth â Datganiad y Gymraeg

21 – 27

Atodiad 2

Sgiliau Cymraeg y Staff – Maes Gwasanaeth a Lefel Cymhwysedd

28 – 31

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad Monitro a Gwella hwn yn adlewyrchu'r gwaith yr ymgwymerwyd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2013/2014.

Mae gan y Cyngor un aelod o staff sy'n arwain ar faterion y Gymraeg. Cefnogir y swydd hon gan Aelod Hyrwyddo Etholedig, y Cyngorydd Ernie Galsworthy. Mae gan staff eraill yn yr awdurdod gyfrifoldeb dros faterion yn ymwneud â'r Gymraeg yn lleol.

Mae'r Swyddog Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn gweithio â Hyrwyddwr Y Gymraeg yr Awdurdod i gyflawni Mesur y Gymraeg, y Safonau sydd ar ddod, gweithredoedd sy'n codi o'r Datganiad y Gymraeg diwygiedig ac argymhellion ymchwiliadau cydymffurfiaeth blaenorol. Cafodd y Datganiad y Gymraeg presennol a'r cynllun gweithredu eu cymeradwyo gan y Cyngor Llawn yn Ionawr 2014.

Bydd yr adroddiad hwn, yn ei gyfanrwydd, yn dangos cynnydd sylweddol mewn cyfnod o newid.

Bydd yr adroddiad blynyddol ar gael i'w lawr lwytho ar wefan y Cyngor ar dudalen Y Gymraeg ar www.merthyrtydfil.gov.uk

Gwasanaethau Rheng Flaen

Derbynfa'r Ganolfan Ddinesig ac Uned 5

Yn ystod Ebrill 2014, agorodd y Cyngor Siop Un Stop (Wyneb yn Wyneb) a Chanolfan Cyswllt Cwsmeriaid (Teleffoni) yn y Ganolfan Ddinesig. Mae 18 o staff o fewn y 2 ardal (ymgyfnewidiol) i helpu cwsmeriaid gyda'u hymholiadau/busnes, ac mae 2 ohonynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl a 3 yn mynychu cyrsiau Cymraeg. Os digwydd nad oes swyddog dwyieithog ar gael yn ardal y dderbynfa mae'r Cyngor yn gweithredu adnodd Llinell Iaith sy'n cynnig gwasanaeth rheng flaen i gwsmeriaid sydd ddim yn siarad Saesneg yn eu hiaith ddewisol 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae staff y ganolfan gyswllt hefyd yn defnyddio rhestr o staff Cymraeg eu hiaith sy'n hapus i gynnal trafodaeth yn Gymraeg os nad yw staff y ganolfan gyswllt ar gael i wneud hynny.

Gwasanaethau Hamdden

Yn dilyn Adroddiad Monitro 2012 - 2013, cynhaliwyd trafodaethau gyda'r Urdd mewn perthynas â datblygu gweithgareddau yn Gymraeg ond teimlwyd mai'r llwybr cywir fyddai mynd ar ôl cyllid Cytundeb Partneriaeth yr Awdurdodau Lleol yn uniongyrchol gan Chwaraeon Cymru. Roedd yr Urdd i fod i ddilyn hyn yn unol â'i gynlluniau busnes. Mae Ysgol Santes Tudful yn darparu ei holl weithgarwch allgyrsiol Campau'r Ddraig trwy gyfrwng y Gymraeg - 6 sesiwn yr wythnos.

Mae gwersi nofio trwy gyfrwng y Gymraeg yn dal i gael eu darparu yng Nghanolfan Gymunedol Aber-fan. Rydym bellach yn cynnig dosbarth i ddechreuwr a dosbarth i rai sydd am wella. Ar hyn o bryd mae 10 o blant wedi cadw lle ar gyfer pob un o'r sesiynau.

Y Celfyddydau

Yn ystod 2013 sefydlwyd prosiect newydd ym Merthyr Tudful wedi ei gyllido gan y loteri. Mae prosiect Possib yn brosiect dwyieithog sy'n defnyddio'r 'celfyddyddau' i ymrwymo preswylwyr i fagu hyder i fynegi eu hunain. Mae'r Cyngor yn cefnogi'r prosiect hwn ac yn gweithio'n agos gydag ef. Ein Swyddog Datblygu'r Celfyddydau yw'r cyswllt ar gyfer y prosiect.

Mae nifer o berfformiadau Cymraeg yn dal i gael eu cynnal yng Nghanolfan Soar. Mae pob digwyddiad Datblygu'r Celfyddydau yn cael ei hysbysu yn ddwyieithog ar wefannau amrywiol. Nid oes dewis iaith yn bodoli gyda Nosweithiau Mic Agored (fel arfer yn Saesneg ond cyfraniad achlysurol yn Gymraeg hefyd). Yn haf 2013 cynhaliwyd digwyddiad o'r enw 'Soar Ar Y Stryd' ar y cyd â

Theatr Soar. Mae gwaith Datblygu'r Celfyddydau gyda Chelf a'r Blaen, prosiect POSSIB, Pentref Byd-eang a Theatr Soar i ddarparu celf berfformio ddwyieithog yn digwydd yn barhaus. Mae'r prosiect yn brosiect 4 blynedd ac mae canlyniadau yn cael eu hysbysu trwy'r Arweinydd Prosiect yn GGMT.

Gwasanaethau Llyfrgell

Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus Merthyr Tudful yn cynhyrchu pob hysbysiad, gwybodaeth a thafleuni yn ddwyieithog. Mae'r holl arwyddion mewnol yn y llyfrgelloedd yn ddwyieithog. Mae defnydd hyrwyddo Her Darllen yr Haf sy'n cael ei gynnal yn flynyddol yn hollol ddwyieithog, gan alluogi plant i gymryd rhan yn y naill iaith neu'r llall. Mae gan wasanaethau'r llyfrgell ystod eang o adnoddau i siaradwyr Cymraeg a rhai sy'n dysgu Cymraeg, fel dulliau dysgu iaith ar-lein yn ogystal â llyfrau a defnyddiau llafar. Rydym wedi ymgymryd â gwaith gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru i ganfod a chatalogio'r holl ddeunydd hanesyddol Cymraeg yn llyfrgelloedd Merthyr. Mae hwn yn adnodd gwerthfawr bellach gyda rhai eitemau prin a gwerthfawr yn rhan o'r casgliad.

Mae Llyfrgelloedd Cyhoeddus Merthyr Tudful yn rhoi cymorth i ddysgwyr yn yr ardal trwy gyflenwi stoc ar gyfer grŵp darllen i ddysgwyr sy'n cael ei gynnal yn allanol.

Mae Llyfrgelloedd Cyhoeddus Merthyr Tudful wedi perfformio'n llawer uwch na'r lefel amodedig gyda gwariant cyfartalog o £873.33 i bob 1,000 o'r boblogaeth o siaradwyr Cymraeg yn ystod y fframwaith tair blynedd mewn perthynas â Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru sy'n nodi:

'Bydd awdurdodau llyfrgelloedd yn sicrhau eu bod yn gwario isafswm ar gyfartaledd dros y cyfnod o dair blynedd hyd Fawrth 2014 o £750 y flwyddyn am bob 1,000 o siaradwyr Cymraeg sy'n trigo yn yr awdurdod (oedolion a phlant dan 16 oed) o gyfanswm y gronfa bwrcasu ar brynu, marchnata a hyrwyddo defnyddiau yn y Gymraeg'.

Dim ond un aelod staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn y gwasanaeth ar hyn o bryd sy'n hapus i siarad yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r aelod staff hwn yn siarad mewn ysgolion a lleoliadau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg ar gais ac mae hefyd yn cynnal sgysiau ar y ffôn ac yn ateb ymholiadau wyneb yn wyneb trwy gyfrwng y Gymraeg ar gais.

Plant a Phobl Ifanc

Mae gan y Gwasanaeth Ieuencid ei gynllun gweithredu iaith Gymraeg ei hun mewn grym. Mae hyn wedi datblygu cyfleoedd i bobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynnwys pobl ifanc yn cael y cyfle i wneud Gwobr Dug Caeredin, a gwobrau Cyflawniad Ieuencid trwy gyfrwng y Gymraeg mewn partneriaeth â Menter Iaith. Yn ystod 2013/14 mae Menter Iaith wedi cyflogi 2 Weithiwr Ieuencid Cymraeg dan Hyfforddiant i ddatblygu ac estyn darpariaeth benodedig yn y Gymraeg ymhellach a chefnogi datblygu cyfleoedd integredig dwyieithog ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Mae gwefan 'Mwstwr Merthyr' yn cael ei darparu'n ddwyieithog ac mae'n galluogi pobl ifanc i weld ystod o wybodaeth a gwasanaethau sydd ar gael yn ogystal â chadw mewn cysylltiad trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol sy'n cael eu rheoli gan grŵp golygyddol o bobl ifanc.

Mae'r Gwasanaeth Ieuencid yn parhau i ddarparu deunydd marchnata drwy gyfrwng y Gymraeg i gynyddu ymdeimlad pobl ifanc o berchenogaeth o fewn darpariaethau Ieuencid iaith Saesneg a chwalu'r rhwystrau rhag defnyddio'r iaith yn gymdeithasol, sydd hefyd wedi'u cefnogi gan y gweithwyr Ieuencid dan hyfforddiant o fewn gweithdai â thema.

Yn dilyn yr adolygiad proffesiynol blaenorol o'r Gwasanaeth Ieuencid, cynhaliwyd ymgynghoriad gyda phobl ifanc ledled y Fwrdeistref ar ddyfodol y Gwasanaeth Ieuencid. Cyfrannodd ymron i 1,600 o bobl ifanc at yr ymgynghoriad a llwyddwyd i gipio barn pobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg trwy holiaduron ac o fewn grwpiau ffocws wedi eu targedu.

Canolfan Integredig Plant

Mae Canolfan Integredig Plant Cwm Golau hefyd wedi datblygu cynllun gweithredu iaith Gymraeg yn ddiweddar sy'n dangos y cynnydd sydd wedi ei wneud trwy'r meysydd gwasanaeth i fynd i'r afael â dwyieithrwydd, yn cynnwys:

- Darparu rhaglenni trwy gyfrwng y Gymraeg

- Siaradwyr Cymraeg penodedig ym mhob maes rhaglen
- Cyflwyno arwyddion dwyieithog ym mhob adeilad
- Deunyddiau cyhoeddusrwydd dwyieithog
- Sicrhau bod dogfennau allweddol yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog yn unol â'r Cynllun Iaith Gymraeg
- Byrddau arddangos Cymraeg/dwyieithog o fewn lleoliadau
- Cymalau dwyieithrwydd yn gynwysedig mewn Cytundebau Lefel Gwasanaeth
- Gweithwyr gofal plant penodedig Cymraeg eu hiaith
- Datblygu gwefan newydd ddwyieithog - Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
- Diweddariad Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant hefyd wedi ei gyhoeddi'n ddwyieithog

Agenda Cyfranogiad Pobl Ifanc

Mae Fforwm Ieuenctid Bwrdeistref Gyfan Merthyr Tudful (y Fforwm Ieuenctid) a'r Cabinet yn parhau i fod yn ymroddedig i'r Gymraeg sy'n gyflin â disgwyliadau a nodir gan Ddatganiad y Gymraeg. Mae'r holl ddefnydd marchnata perthnasol yn cael ei gynhyrchu yn ddwyieithog gan gwrdd â chanllawiau'r cyngor. Yn ystod y cyfnod 2013/14, roedd pedwar o naw Aelod Cabinet y Fforwm Ieuenctid yn siaradwyr Cymraeg. Mae hybu a dathlu treftadaeth, diwylliant ac amrywiaeth yn dal i fod yn nod gan y Fforwm Ieuenctid ac mae hyn wedi sicrhau bod unigolion a grwpiau yn teimlo'n werthfawr ac yn teimlo eu bod yn perthyn i'w cymuned ac yn ei dro mae hyn wedi creu sianeli cyfathrebu ac ymddiriedaeth gryfach gyda'r holl bobl ifanc sy'n mynychu cyfarfodydd y Fforwm Ieuenctid.

Y Ganolfan Ymgynghori

Mae Prosiect Ymgynghoriad Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd y Bwrdd Gwasanaeth Lleol yn anelu at roi cyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth leisio barn ar y gwasanaethau y maen nhw'n eu derbyn, boed yn wasanaethau rheng flaen neu'n bolisiau a gweithdrefnau. Anogir y cyhoedd i leisio barn trwy ddefnyddio'r Ganolfan Ymrwymiad Cymunedol, offer ymrwymo ar-lein ar gyfer rhannu barn er mwyn datblygu gwasanaethau (www.cwmtafhub.co.uk).

Mae'r system yn hollol ddwyieithog sy'n rhoi cyfle cyfartal i ddefnyddwyr gwasanaeth Merthyr Tudful leisio barn trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Mae'r Cydlynedd Ymgynghori hefyd yn siaradwr Cymraeg iaith gyntaf, ac felly ymgymerir ag ymgynghoriad/ymrwymiad wyneb yn wyneb yn ystod gweithdai, cyfweiliadau gyda defnyddwyr gwasanaeth a grwpiau ffocws trwy gyfrwng y Gymraeg.

Fframwaith Mwy na Geiriau

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol wedi mabwysiadu'r Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg sydd yn canolbwyntio ym mlwyddyn 1 ar sicrhau bod y seilwaith yn ei le, cyflawni cynnydd yn sefydlu grŵp gweithredu, penodi Hyrwyddwr y Gymraeg a datblygu cynllun gweithredu sy'n nodi'r prif flaenoriaethau perthnasol. Mae'r gwaith o gyfnerthu'r cynnydd ar gyfer blwyddyn 1 a chyflawni'r gweithredoedd angenrheidiol er mwyn cyflenwi blaenoriaethau blwyddyn 2 yn mynd yn ei flaen.

Dysgu Oedolion a'r Gymuned

Mae Strategaeth Dysgu Oedolion a'r Gymuned wedi nodi'r Gymraeg a Diwylliant Cymreig fel blaenoriaeth sydd wedi arwain at gynhyrchu cynllun gweithredu unigol trwy'r rhwydwaith Dysgu Oedolion a'r Gymuned. Menter Iaith Merthyr yw'r arweinydd strategol ar gyfer y datblygiad hwn ac mae'n derbyn cymorth gan wasanaeth Dysgu Oedolion a'r Gymuned Merthyr Tudful i ganfod adnoddau i roi'r gweithredoedd a gytunwyd ar waith. Cafodd y datblygiad hwn ei nodi yn Arolwg Estyn o bartneriaethau Dysgu Oedolion a'r Gymuned Merthyr Tudful (Tachwedd 2013) fel arfer da ac roedd y farn gyffredinol am y ddarpariaeth yn rhagorol.

Mae cwricwlwm Dysgu Oedolion a'r Gymuned yn cael ei gynhyrchu yn ddwyieithog ac yn cael ei ddiweddarau bob blwyddyn. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi cynhyrchu llyfryn o weithgareddau blynyddol yn ddwyieithog ar gyfer yr holl bartneriaid sy'n gweithredu o fewn Parc Cyfarthfa fel rhan o ddarpariaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri (Prosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Castell, pysgota a rheilffordd).

Ble'n briodol mae gan ein cyrsiau achrededig trwy gyfrwng yr agenda ADCDF uned Diwylliant Cymru yn rhan ohonynt.

Tim Cymorth Ymyriad Lluosog:

Mae gwefan y Tîm Cymorth Ymyriad Lluosog yn parhau i gael ei datblygu. Fe fydd yn ddwyieithog ac mae taflen y Tîm wedi cael ei chynhyrchu a'i dosbarthu yn ddwyieithog. Pan gaiff gwefan y Tîm ei chwblhau, fydd yn digwydd yn 2014/15 gobeithio, bydd yr holl ddogfennau gweithredu o fewn Pecyn Cymorth y Tîm ar gael i'w lawr lwytho yn Gymraeg a Saesneg.

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd:

- Mae gwefan Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn ddwyieithog.
- Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn gweithredu gwasanaeth sy'n gysylltiedig â Chyfyngau Cymdeithasol (Facebook a Twitter) a fydd yn ddwyieithog pan gaiff ei lansio.
- Gweithio tuag at gyfieithu templedi ar gyfer ymholiadau. Ar y cyd â Swyddog Datblygu Mudiad Meithrin, mae gwybodaeth ychwanegol ar grwpiau Ti a Fi ar gael yn ddwyieithog yn awr. Bydd hyn yn cael ei ehangu i leoliadau gofal plant eraill sy'n dymuno i'w gwybodaeth ychwanegol fod ar gael yn ddwyieithog.
- Mae iaith y lleoliad yn cael ei gynnwys ar argraffiadau ymholiadau. Mae'r diffiniadau a ddefnyddir yn cael eu rhagnodi yn Neddf Gofal Plant 2006.
- Swyddog Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd wedi ymgymryd â hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.
- Defnyddiau hyrwyddo e.e. taflenni, a phosteri yn ddwyieithog.

Rhianta:

Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth Rhianta yn gorffen cynhyrchu adnodd dysgu a chymorth ar-lein i'w ddefnyddio gan weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd. Bydd yr adnodd yn galluogi unigolion i fynd at wybodaeth a chanllawiau ar ystod o faterion rhianta ar fformat ysgrifenedig a llafar. Ar hyn o bryd mae'r Tîm Rhianta yn gweithio gyda BIP Cwm Taf i gyfieithu'r ddau fformat yn adnodd Cymraeg cyn ei gyhoeddi.

Datblygiad Economaidd

Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth blynyddol yn bodoli rhwng CBSMT a Menter Iaith, wedi ei ariannu gan Grant Craidd Sector Gwirfoddol y Cyngor, ble y talir swm blynyddol o £15,998 i helpu Menter Iaith i gyflawni yn erbyn targedau a osodwyd: codi ymwybyddiaeth o ddwyieithrwydd, diwylliant Cymreig a'r Gymraeg yn y gymuned, cyflenwi sesiynau ymwybyddiaeth i staff yn yr Awdurdod a chymorth gyda datblygu'r Cynllun Iaith Gymraeg a'r cynllun gweithredu cysylltiedig. Mae'r dyraniad Grant Craidd yn darparu cymorth i sicrhau bod y Cyngor yn cynnal proffil y Gymraeg ym mhob un o'i Strategaethau Corfforaethol, Polisiâu a Chynlluniau. Cafodd cyllid ei gymeradwyo trwy'r Rhaglen Datblygu Economaidd Cymunedol a ddyrannodd gyllid i Ganolfan a Menter Iaith ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer Llys Bowen. Derbyniodd y sefydliad £20,000 i roi'r prosiect hwn ar waith. Mae'r Gymraeg yn thema drawsbynciol o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig a Rhaglen Datblygu Cymunedol Ewrop. Mae Prif Swyddog, Canolfan a Menter Iaith, wedi ei chynnwys fel pwynt cyswllt ar bob ffurflen gais er mwyn cynorthwyo ymgeiswyr gydag elfen iaith Gymraeg eu prosiect. Mae'r Prif Swyddog yn gynrychiolydd allweddol o fewn Protocol y Sector Gwirfoddol i gynorthwyo gyda chymorth i wneud cais. Mae hyn yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried wrth gymeradwyo cyllid ar gyfer y gymuned leol, y Sector Cyhoeddus a busnesau. Mae Canolfan a Menter Iaith hefyd yn rhan o drafodaethau ar gyfer Rhaglenni Ewropeaidd yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys fel thema allweddol ac i ddatblygu unrhyw brosiectau Cymraeg posib.

Mae'r holl ddogfennau sy'n cael eu cynhyrchu gan Datblygu Economaidd, yn cynnwys cylchlythyrau, ffurflenni cais a chanllawiau yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog.

Addysg

Mae gweledigaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar ddogfennau strategol allweddol Llywodraeth Cymru fel *Y Wlad sy'n Dysgu, Iaith Pawb*; a'r canlyniadau a thargedau a amlinellir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. O fewn yr awdurdod "**Dysgu i Fyw**" yw'r flaenoriaeth sy'n sail i *Gynllun Integredig Sengl 2013 - 2017* y Bwrdd Gwasanaeth Lleol gan y bydd yn helpu i gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Merthyr Tudful a'r Prif Ganlyniadau. Nod ac amcanion yr Adran Ysgolion yw hybu gwell safonau cyrhaeddiad, presenoldeb a chyflawniad ar draws pob cyfnod allweddol i rai 3 – 16 oed. Mae hyn yn hanfodol os ydym am dorri'r cylch o dlodi rhwng cenedlaethau yn ein hardal awdurdod lleol, a chodi dyheadau a deilliannau i blant a phobl ifanc a gwella eu cyfleoedd mewn bywyd.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ceisio cwrdd â thargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg fel sy'n cael ei ddangos gan:

- y buddsoddiad yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n bodoli eisoes (dros £7.1m) i sicrhau bod digon o le i gwrdd â thwf yn y dyfodol. Ar hyn o bryd fe allai'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ymdopi â chynnydd mewn galw o dros 30% (151 o ddisgyblion ychwanegol);
- y gwaith allweddol gyda phartneriaid, yn cynnwys Llywodraeth Cymru i hybu a chreu galw pellach am addysg cyfrwng Cymraeg dros y tair blynedd nesaf. Mae gan yr awdurdod darged o gynnydd o 12% (60 disgybl) yng nghyfanswm y disgyblion yn yr awdurdod sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2017;
- y cynlluniau i wneud arolwg o rieni i asesu galw rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg yn Nhymor y Gwanwyn 2014;
- y graddfeydd uchel o gynnydd sy'n cael eu cynnal rhwng y gwahanol gyfnodau allweddol, yn cynnwys trosglwyddiad i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg (100% yn gyson).
- y cydweithio llwyddiannus ers amser gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf i ddarparu addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg sydd o fudd i'r ddau gyngor.

Yn ei gynllunio strategol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, blaenoriaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw:

- Gwella Ysgolion – safonau a lles; a
- Darpariaeth – cymorth, diogelu a darparu llefydd mewn ysgolion.

Rheoli a Gweinyddu'r Datganiad

Caffael

Ar adnewyddu cytundebau, dylai unrhyw fanylebau, cytundebau neu drefniadau sy'n cael eu gwneud â thrydydd parti sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd gydymffurfio â Datganiad y Gymraeg. Mae gwaith wedi ei gyflawni gyda'r Swyddog Cydraddoldeb a'r Gymraeg a swyddogion Caffael i wneud y dogfennau tendro cyn-cymhwyso yn unffurf. Mae cwestiynau Cymraeg wedi eu cynnwys ym mhob dogfen sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd. Mae copïau o'r dogfennau hyn eisoes wedi eu darparu i Gomisiynydd y Gymraeg.

Cymorth i Feysydd Gwasanaeth

Mae'r Swyddog Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn cynnig cyngor, sy'n cynnwys hyfforddiant, cyfieithu ac arweiniad ar faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Mae'r holl ganllawiau a pholisïau perthnasol ar gael ar y fewnwyd.

Mae dadansoddiad o berfformiad mewn perthynas â Datganiad y Gymraeg yn cael ei adolygu gan y Swyddog Cydraddoldeb a'r Gymraeg. Mae'r Swyddog Cydraddoldeb a'r Gymraeg bellach yn yr Adran Perfformiad, Partneriaethau ac Archwilio. Mae hyn yn gwella cydweithio i sicrhau dulliau adrodd cywir trwy gynlluniau gweithredu adrannol.

Cwynion

Mae'r Awdurdod wedi derbyn tri chwyn mewn perthynas â'r Gymraeg yn y cyfnod Ebrill 2013 – Mawrth 2014. Derbyniodd y Cyngor 2 gŵyn mewn perthynas â thrafnidiaeth ysgol, trwy Gomisiynydd y Gymraeg. Derbyniodd yr Adran Gwynion un cwyn mewn perthynas â dim derbynneb ar gael yn Gymraeg. Ymdriniwyd â phob cwyn a chafwyd datrysiad boddhaol i bob cwyn.

Gwefan y Cyngor

Yn dilyn lansio'r wefan ddwyieithog yn 2012, mae gwaith yn mynd yn ei flaen i sicrhau bod cynnwys Cymraeg yn gyfredol. Mae gwaith cynnal y wefan o ddydd i ddydd yn dal i gael ei wneud ar y cyd rhwng y tîm cyfieithu yn Cyfieithu Soar a Chydlynnydd y Wefan. Mae pob tudalen newydd sy'n cael ei phostio ar y wefan yn ddwyieithog.

Mae'n bosib talu ar-lein yn ddwyieithog yn awr ar y wefan Gorfforaethol. Yn dilyn gweithio gyda'r Adran TG a'r adran taliadau fe gwblhawyd y gwasanaeth yn Haf 2013.

Mae gwaith parhaus yn cael ei dargedu gydag adrannau perthnasol sy'n cynnwys ffurflenni a dogfennau ar eu tudalennau Rhyngwyd, i sicrhau eu bod yn ddwyieithog.

Gwefan a Chyfyngau Cymdeithasol

Mae cynnwys Cymraeg ar gyfrifon Facebook a Twitter y Cyngor wedi gwella yn y misoedd diweddar. Mae hyn yn cael ei fonitro gan y tîm Cyfathrebu Corfforaethol.

Sgiliau Cymraeg

Mae dadansoddiad o sgiliau iaith staff yn atodedig yn Atodiad 2.

Hyfforddiant Iaith Gymraeg yn y Gweithle a Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith

Mae gan y Cyngor system lwyddiannus a hygyrch mewn lle ar gyfer y Gymraeg sydd wedi bod yn weithredol ers Medi 2001.

Mae'r Awdurdod yn parhau i gael gwersi Cymraeg gan gangen Morgannwg Cymraeg i Oedolion. Roedd y Cyngor yn gallu cynnig 4 lefel: Blwyddyn 1 a 2 - Mynediad, Blwyddyn 4 - Sylfaen a Magu Hyder. Mynychodd 20 o staff y sesiynau yn y flwyddyn academaidd hon. Mae'r Swyddog Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn derbyn diweddariadau gan Cymraeg i Oedolion mewn perthynas ag unrhyw broblemau/diffyg presenoldeb. Mae'r rhain yn cael eu hysbysu i'r Pennaeth Adran perthnasol. Yn ystod y flwyddyn

hon, rydym wedi gweld oddeutu 4 aelod staff yn gadael y sesiynau cyn eu cwblhau. Roedd hyn yn bennaf oherwydd llwyth gwaith cynyddol ac aildrefnu adrannau. Rydym yn ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â hyn ac i annog staff i fynychu'r dosbarthiadau Cymraeg.

Cynhaliwyd sesiynau blasu'r Gymraeg i staff, wedi eu trefnu gyda Cymraeg i Oedolion. Cynhaliwyd y rhain yn ystod Mehefin 2013 am 5 wythnos. Mynychodd 6 o staff. Roedd y sesiynau ar agor i'r cyhoedd hefyd. Mae sesiynau blasu pellach wedi eu cynllunio ar gyfer Mehefin/Gorffennaf, dyddiadau i'w cadarnhau.

Bydd y Swyddog Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn creu rhestr o staff sydd wedi datgan diddordeb mewn sesiynau Iaith Gymraeg ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Bydd gwersi Cymraeg yn dal i gael eu darparu gan Cymraeg i Oedolion.

Mae sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn dal i gael eu darparu gan Menter Iaith Merthyr ers Mawrth 2013. Mae'r sesiynau'n cael eu darparu i reolwyr llinell ac arweinwyr tîm.

Modiwl e-ddysgu'r Gymraeg


Er mwyn helpu i gyrraedd y targed o ddarparu cyrsiau Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn ogystal â chysiau Cymraeg Llafar, mae pedwar cyngor wedi bod yn gweithio gyda Learning Industries i addasu'r modiwl e-ddysgu Cymraeg (a gafodd ei ddatblygu ganddyn nhw a Bwrdd Iechyd Hywel Dda) i awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae cynghorau Caerffili, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful wedi cydweithio ar hyn, sydd nid yn unig yn dangos gweithio tros ffiniol a rhanbarthol, ond sydd wedi cyflawni arbedion ariannol o ran cost trwy weithio fel consortiwm ad-hoc gyda Learning Industries.

Bydd y modiwl e-ddysgu nid yn unig yn helpu'r Awdurdod i allu darparu cyrsiau ymwybyddiaeth o'r diwedd i ryw draean o'i weithlu trwy'r fewnwyd, ond fel rhan o'r cytundeb, bydd Cyngor Caerdydd yn cyfieithu'r modiwl, ac felly'n galluogi pobl i fynd at yr hyfforddiant yn hollol ddwyieithog. Mae'r gwaith hwn o ddatblygu modiwl e-ddysgu dwyieithog yn ateb y diben yn berffaith o ran yr Academi ar gyfer Llywodraeth Leol Cymru Gyfan arfaethedig, dan arweiniad Cyngor Caerdydd a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Mae'r gwaith wedi parhau i flwyddyn ariannol 2014-2015 ond mae'n cael ei nodi yma fel enghraifft o arfer da a blaengynllunio gan bedwar cyngor yn ne a de ddwyrain Cymru. Rhagwelir y bydd y pecyn yn barod i'w ddefnyddio yn Haf 2014.

Mae'r ddelwedd isod, er gwybodaeth, yn dangos un o'r sgriniau sydd wedi eu haddasu ar y fersiwn brawf, yn ymdrin â chynghorau yn hytrach na'r sector lechyd:



Prif ffrydio'r Gymraeg

Mae'r rhestr polisi corfforaethol yn cael ei ddiweddarau'n barhaus. Bydd y broses yn parhau i gael ei gefnogi gan y defnydd o ffurflen Asesiad o Effaith ar gydraddoldeb a ddiweddarwyd yn ddiweddar. Mae'r broses hon yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio a'i monitro gyda'r ceinciau Cydraddoldeb eraill. Rhaid i bob adroddiad pwyllgor gynnwys ffurflen sgrinio a/neu ffurflen adrodd Asesiad o Effaith. Mae'r arfer hwn yn cael ei fonitro gan Swyddog y Gymraeg cyn i Adroddiadau'r Cabinet a'r Cyngor gael eu cynhyrchu. Mae copi o ddogfen Asesiad o Effaith ar gydraddoldeb eisoes wedi ei ddarparu i swyddogion Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r broses hon yn helpu i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio a'i monitro yn gyfartal gyda cheinciau Cydraddoldeb eraill.

Ni fydd pob adroddiad a pholisi yn cael effaith uniongyrchol ar ddarpariaeth gwasanaeth Cymraeg, ac ni fydd materion y Gymraeg yn berthnasol i bob adroddiad, neu bolisi newydd neu wedi ei ddiweddarau; fodd bynnag bydd cael y prosesau yn eu lle yn sicrhau bod gan y Cyngor system llawer gwell ar gyfer prif ffrydio ystyriaethau'r Gymraeg i'w waith bob dydd.

Safonau'r Gymraeg

Yn gynnar yn Ionawr 2014, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg hysbysiad archwilio i lansio Ymchwiliad o Safonau Awdurdodau Lleol ledled Cymru.

O Ionawr i Ebrill, gwnaed gwaith helaeth gan y Swyddog Cydraddoldeb a'r Gymraeg i sefydlu safle presennol yr Awdurdod mewn perthynas â'r Safonau Drafft. O ganlyniad fe ddychwelwyd ymateb cynhwysfawr i holiadur yr Ymchwiliad i Gomisiynydd y Gymraeg erbyn y dyddiad cau.

Nid yw'n hysbys ar hyn o bryd a fydd yna unrhyw amrywiaeth rhanbarthol i'r Safonau, neu wahanol lefelau o gymhwyster. Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn aros i weld yr adroddiad Safonau a anfonwyd at Weinidogion Cymru, gyda chanfyddiadau'r ymchwiliad diweddar.

Cyfieithu i'r Gymraeg

Mae'r Awdurdod yn parhau i ddefnyddio gwasanaethau 'Cyfieithu Soar'. Mae trefniadau'r Lefel Cytundeb Gwasanaeth yn dod i ben yn 2015/2016. Bydd diweddariadau pellach yn cael eu darparu pan fydd arolwg wedi digwydd. Mae 'Cyfieithu Soar' hefyd yn cyfieithu'r holl dudalennau ar y wefan yn ôl y gofyn.

Y Gymraeg yn y Gymuned

Mae'r Cyngor yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned trwy weithio mewn partneriaeth gyda Chanolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful.

Mae'r Fenter Iaith yn gweithio i hybu'r Gymraeg trwy weithio gyda swyddogion yn y cyfarwyddiaethau Gwasanaethau Cwsmeriaid, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adfywio Cymdeithasol. Mae'r Prif Swyddog mewn cysylltiad rheolaidd gyda swyddogion penodol yn **Datblygu Economaidd** ac **Adfywio Ffisegol** mewn perthynas â **Rhaglen Adfywio Canol y Dref, Menter Treftadaeth Treflun** a chynrychiolaeth ar Rwydwaith Menter Gymdeithasol Merthyr Tudful. Mae'r swyddog hefyd wedi bod yn rhan o'r cynlluniau busnes Cynllun Datblygu Gwledig hyd yma. Gweithiodd swyddogion gydag Alyn Owen, Chris Long, Sarah Mee, Gavin Lewis, Rhian Prosser, Zoe Thomas, Suzanne Lewis-Abbott, Helen Kell a Harri Evans.

Mae'r Fenter Iaith yn darparu cymorth a chynghor i Swyddogion Awdurdod Lleol pan wneir cais. Mae'r Prif Swyddog wedi cael sawl cyfarfod a thrafodaeth gyda'r swyddog sy'n gyfrifol am **y Gymraeg** (Dionne Llywellyn) yn ystod y flwyddyn yn dilyn cwynion a dderbyniwyd am ddiffyg cyfieithu Cymraeg ac adroddiad dilynol Comisiynydd y Gymraeg. Mae hyn wedi arwain at weithredu i sicrhau bod cyfieithu Cymraeg am gost resymol ar gael i'r Awdurdod Lleol.

Mae'r Swyddog Cydraddoldeb a'r Gymraeg hefyd yn aelod o **Fforwm Iaith Gymraeg Merthyr Tudful** sy'n cael ei drefnu gan y Fenter Iaith sy'n dod â holl randdeiliaid y Gymraeg ym Merthyr Tudful at ei gilydd. Mae'r rhain yn cynnwys penaethiaid y 2 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg a'r ysgol uwchradd yn Aberdâr, Mudiad Meithrin, Cymraeg i Oedolion, Cymdeithas y Dysgwyr Cymraeg, y Bwrdd Iechyd, Urdd Gobaith Cymru a chynrychiolydd o Lywodraeth Cymru. Ar 13 Mawrth eleni ehangwyd yr aelodaeth mewn cyfarfod ble yr estynnwyd gwahoddiad i Gomisiynydd y Gymraeg, Meri Huws, siarad â'r Fforwm am waith ei swyddfa.

Mae Fforwm Addysg Gymraeg yn gweithredu fel is-grŵp o Fforwm Iaith Gymraeg Merthyr Tudful, sy'n cyfarfod i addysgu'r **Cynllun Addysg Gymraeg Strategol**, dogfen statudol dan oruchwyliaeth Joyce Slack o'r ALI.

Mae'r Prif Swyddog yn cwrdd yn aml â Ryan Stokes, Rheolwr **Dysgu Cymunedol a Theuluol** yr ALI i drafod cyrsiau cymunedol cyfrwng Cymraeg. Mae grŵp **Dysgu Cymunedol Cymraeg** wedi cael ei sefydlu i fwydo'r Strategaeth Dysgu Oedolion a'r Gymuned. Mae hwn yn cynnwys Menter Iaith, Cymraeg i Oedolion Prifysgol Morgannwg, WEA a Dysgu Oedolion a'r Gymuned. Mae Strategaeth y Gymraeg wedi cael ei ysgrifennu sy'n nodi 5 cam o ddysgu. Mae hyn yn mynd i'r afael â materion fel y defnydd o Gymraeg gan diwtoriaid yn achlysurol, hyfforddiant i diwtoriaid, cyrsiau Cymraeg, cyrsiau cyfrwng Cymraeg a chysiau dwyieithog. Mae'r Prif Swyddog yn aelod o'r **Bartneriaeth Dysgu Oedolion a'r Gymuned** ac yn arwain ar ddarpariaeth Cymraeg ledled y fwrdeistref.

Mae cyfarfod diweddar gyda Deb Newton **Swyddog Cyflogadwyedd** yr Awdurdod Lleol wedi sicrhau lle i'r Fenter Iaith ar y Bartneriaeth Cyswllt Cyflogadwyedd.

Mae'r Fenter Iaith yn gweithio mewn partneriaeth â Gus Payne, Swyddog **Datblygu'r Celfyddydau** yr Awdurdod Lleol ac Alex Stephens, Swyddog **Datblygu Treftadaeth** SHARE yr Awdurdod Lleol ar amryw o ddigwyddiadau a pherfformiadau celfyddydau a threftadaeth.

Trwy drafodaethau a gynhaliwyd gyda Keiron Montague, **Rheolwr Gwasanaeth Chwarae ac Ieuentid** yr Awdurdod Lleol, mae'r Fenter Iaith yn rhan o'r Rhwydwaith Darparwyr Gwasanaethau Ieuentid newydd. Mae'r Fenter wedi derbyn Cytundeb Lefel Gwasanaeth i ddarparu Gwasanaethau Ieuentid Cymraeg a dwyieithog rhan amser. Mae'r Fenter Iaith yn gweithio gyda Sarah Davies, **Cydlynnydd Blynnyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg** yr Awdurdod Lleol i ddarparu cyfleoedd i chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghanolfan Soar.

Awgrymwyd mewn cyfarfod â Giovanni Isingrini a Gareth Chapman beth amser yn ôl y dylid sefydlu Grŵp y Gymraeg sy'n dod â chynrychiolwyr o bob un o'r cyfarwyddiaethau at ei gilydd.

Mae'r Fenter laith yn cynrychioli'r Gymraeg ar nifer o fforymau a phwyllgorau sy'n gweithio yn y gymuned fel y Fforwm Treftadaeth a'r Fforwm Adfywio. Mae cynrychiolaeth y Fenter laith yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried ym mhob agwedd ar waith y fforymau hyn.

Mae'r Fenter laith wedi gweithio gyda Chymraeg i Oedolion i ddarparu sesiynau 'Coffi a Chlonc' yn swyddfeydd y Cyngor ac wedi gweithio mewn partneriaeth gyda Chymraeg i Oedolion i ddarparu sesiynau blasu yn ystod Wythnos Addysg Oedolion.

Mae'r Swyddog Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn hysbysebu holl ddigwyddiadau'r Fenter laith ar fewnwyd yr Awdurdod.

Ymgynghoriadau Cyhoeddus ar Gyllideb

Roedd yr holiaduron a'r sioeau teithiol diweddar ar gyfer yr ymgynghoriad Cyllideb yn ddwyieithog. Roedd swyddogion Cymraeg eu hiaith ar gael ym mhob sioe deithiol er mwyn i'r cyhoedd allu trafod unrhyw faterion yn Gymraeg. Roedd rhieni a disgyblion ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r cyhoedd oedd eisiau trafod y cynnig Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol yn falch iawn o hyn. Mae trefniadau tebyg i gael eu defnyddio ym mhob digwyddiad ymgynghoriad cyllideb cyhoeddus arall.

Dadansoddiad o Berfformiad

Fframwaith Gwella Gwasanaeth a Hunan Werthuso

Cafodd y Fframwaith Gwella Gwasanaeth a'r dull Hunan Werthuso fydd yn cael ei ddefnyddio ledled y Cyngor ei lansio gan y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor yn ystod Awst 2013 fel rhan o'r gweithredoedd oedd yn angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael ag Argymhellion Estyn mewn perthynas â Hunan Werthuso a'r Argymhellion Statudol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Fel rhan o'r Fframwaith hwn gofynnwyd i bob Rheolwr Tîm ledled y Cyngor gynnal Hunan Werthusiad o'u Gwasanaeth gyda chyfraniadau gan eu staff yn seiliedig ar gwestiynau Hunan Werthuso a oedd hefyd yn galluogi canfod risgiau.

Roedd y cwestiynau hyn yn ymdrin â'r penawdau canlynol:

MODEL HUNAN WERTHUSO 2014-15	
PENAWDAU PARTH	
1	Deilliannau
2	Darpariaeth a Chyflenwi Gwasanaeth
3	Arweinyddiaeth a Rheolaeth Strategol.

Mae'r Model Hunan Werthuso hwn wedi cymryd lle Model Asesu Risg y Cyngor ar gyfer 2014-15, yn canolbwyntio ar ganfod yr holl Risgiau Uchel, Difrifol a/neu Drychinebus sy'n wynebu pob Gwasanaeth. Fel gyda'r Model Asesu Risg blaenorol, roedd disgwyl hefyd i Reolwyr Tîm:

- Asesu'r risgiau a ganfuwyd o ran Effaith a Thebygolrwydd yn defnyddio Matrics Risg y Cyngor (5 x 5).
- Canfod y gweithredoedd angenrheidiol i reoli'r risgiau.
- Dyrannu Perchennog Risg i bob risg a ganfyddir.

Er mwyn sicrhau bod y Gymraeg a Chydraddoldeb yn cael eu hystyried ac yn sail i'r broses Hunan Werthuso cafodd y cwestiwn canlynol ei gynnwys:

- Ydi'r gwasanaeth yn cwrdd â'i rwymedigaethau statudol? Wrth ateb y cwestiwn hwn, ystyriwch y canlynol ac unrhyw faterion pellach perthnasol yn cynnwys pa wahaniaeth mae eich gwasanaeth wedi ei wneud:
 - Unrhyw heriau cyfreithiol i ddarpariaeth gwasanaeth.
 - Unrhyw atgyfeiriadau at gyrff rheoleiddiol neu'r Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus.
 - Unrhyw faterion a godwyd gan Gyrrff Archwilio neu Arolygu.
 - Rhwymedigaethau corfforaethol, e.e. Diogelu; Cynaliadwyedd; **Y Gymraeg; Cydraddoldeb (yn cynnwys Mynediad at Wasanaethau)**; Iechyd a Diogelwch; Parhad Busnes; Diogelwch Asedau ac ati.

Roedd disgwyl hefyd i wasanaethau nodi unrhyw Risgiau Uchel, Difrifol a/neu Drychinebus yn gysylltiedig â'r cwestiwn hwn fel rhan o'r Model Hunan Werthuso.

Y Cynllun Integredig Sengl ac Asesiad o Effaith ar Gynaliadwyedd

Cafodd y Cynllun Cymunedol a'r Asesiad o Effaith ar Gynaliadwyedd ei lansio ym Medi 2012 ac mae wedi ei ddiweddarau yn sgil y ffaith bod y Cynllun Integredig Sengl yn cymryd lle'r Cynllun Cymunedol.

Mae'r Asesiad o Effaith diwygiedig sy'n cael ei alw'n Cynllun Integredig Sengl ac Asesiad o Effaith ar Gynaliadwyedd yn ceisio sicrhau bod pob adroddiad, penderfyniad a chynnig i'r Cyngor a'r Cabinet yn cyfrannu at gyflenwi'r Prif Ganlyniadau fel sy'n cael eu nodi yn y Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Merthyr Tudful a Chynllun Corfforaethol y Cyngor, ac a yw'r cynigion yn cwrdd â'n rhwymedigaethau o ran asesu'r effaith ar Gynaliadwyedd, Iechyd, Trosedd a'r **Gymraeg**.

Mae'r Asesiad o Effaith hefyd:

- Yn cefnogi'r Cyngor yn mabwysiadu Datblygiad Cynaliadwy fel egwyddor drefnu ganolog trwy sicrhau y dylanwadir yn llawn ar benderfyniadau gan ystyriaeth o'r effaith ar les economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a hirdymor.
- Yn sicrhau bod risg yn cael ei ystyried yn briodol trwy alluogi awduron adroddiadau i ganfod unrhyw fygythiadau a/neu gyfleoedd sy'n gysylltiedig â chynigion yn adroddiadau'r Cyngor a'r Cabinet.

Ers cyflwyno'r Cynllun Integredig Sengl a'r Asesiad o Effaith ar Gynaliadwyedd i holl Adroddiadau'r Cyngor a'r Cabinet ar 17eg Gorffennaf 2013 mae'r effeithiau o'r cynigion wedi cael eu mesur, casglu a'u cofnodi ar gyfer Cyfarfodydd Cabinet a Chyngor.

Cydymffurfio â Datganiad y Gymraeg

Atodiad 1

Diweddariad o'r Cynllun Gweithredu

Mae'r diweddariad isod yn adlewyrchu cyfnod byr o amser o Chwefror 2014 – Ebrill 2014. Cafodd Datganiad y Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu newydd eu cymeradwyo gan y Cyngor Llawn yn Ionawr 2014. Felly, nid yw prosesau a gweithdrefnau wedi eu rhoi ar waith er mwyn newid, mewn rhai meysydd, dan y camau gweithredu a amlinellir isod.

RHIF.	Amser/Dynodwr	Amserlen / Cam Gweithredu	Cynnydd Diweddaraf 2013/2014
1	Dynodwr YG 1 Nifer a % y sampl o drydydd partïon a gafodd eu monitro sy'n cydymffurfio â gofynion Datganiad y Gymraeg:- <ul style="list-style-type: none">• gwasanaethau ieuenctid• gwasanaethau hamdden• darpariaeth cyn ysgol	Sefydlu Gweithdrefn Monitro Yn cael ei fonitro a'i hysbysu'n flynyddol wedi hynny.	Gweithdrefn Monitro i gael ei sefydlu o fewn y meysydd hyn yn ystod cyfnod bywyd Datganiad y Gymraeg presennol.
2	Dynodwr YG 2 Nifer a % y swyddi yr ystyrir bod sgiliau Cymraeg penodol yn hanfodol ar eu cyfer ac sydd wedi eu llenwi gan staff â sgiliau ieithyddol priodol	Yn dilyn aildrefnu yn gynnar yn 2014 bydd Archwiliad o Swyddi yn cael ei gwblhau yn ystod 2014 ym mhob maes gwasanaeth.	Mae'r Swyddog Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn gweithio gydag adrannau ar hyn o bryd i greu cynllun i sefydlu a chofnodi canfyddiadau yn ôl yr angen.

3	<p>Dynodwr YG 3 & 4</p> <p>Monitro nifer a % staff sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel cymhwyster penodol a nifer a % staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.</p>	<p>Adrodd yn flynyddol o fewn yr Adroddiad Monitro Blynyddol.</p>	<p>Mae diweddariad y dynodwr hwn yn cael ei amlinellu ym mhrif gorff yr adroddiad hwn yn 'Cymraeg yn y Gweithle'. Nifer staff a fynychodd sesiynau Cymraeg yn 2013/2014 oedd 20.</p> <p>Nifer y staff a fynychodd sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn 2013/2014 oedd 35.</p>
4	<p>Dynodwr YG 5</p> <p>Nifer a % y staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl</p> <ul style="list-style-type: none"> • maes gwasanaeth • gradd swydd • gweithle 	<p>Adroddir yn flynyddol yn unol â'r Strategaeth Sgiliau leithyddol.</p>	<p>Ar hyn o bryd mae gwybodaeth sylfaenol yn cael ei chofnodi trwy ddata Cydraddoldeb unigol sy'n cael ei gasglu bob dwy flynedd.</p> <p>Bydd casglu data pellach yn dechrau yn ystod 2014/15.</p>
5	<p>Dynodwr YG 6</p> <p>Monitro nifer y cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â gweithrediad y Cynllun Iaith ac yr ymdrinnir â nhw yn unol â</p>	<p>Adroddir yn flynyddol yn unol â'r weithdrefn Cwynion Corfforaethol diwygiedig.</p>	<p>Derbyniwyd 3 chwyn. 2 trwy Gomisiynydd y Gymraeg 1 yn uniongyrchol i GBSMT. Ymdriniwyd â phob un i ddod</p>

	safonau corfforaethol.		at ddatrysiad boddhaol i'r sawl a gwynodd.
6	Cynhyrchu adroddiad monitro blynyddol	Cyhoeddir yn flynyddol yn unol â chanllawiau Comisiynydd y Gymraeg.	I'w gynhyrchu'n ddwyieithog erbyn 30 ^{ain} Mehefin 2014
7	Sicrhau Cydymffurfiaeth â Datganiad y Gymraeg: Trwy fonitro : • Ymatebion awtomatig • Bod galwadau Cymraeg yn cael eu cyfeirio at Swyddogion sy'n siarad Cymraeg • Bod gan rifau sy'n cael eu hysbysebu gyfarchion/negeseuon dwyieithog	Monitro ac adrodd yn flynyddol.	Bydd gweithdrefn cofnodi yn cael ei sefydlu yn ystod 2014/2015.
8	Cynnal arolygon thematig ar feysydd gwasanaeth penodol mewn partneriaeth â Menter Iaith Merthyr.	Manylion a chanfyddiadau thematig i gael eu hadrodd o fewn yr adroddiad monitro blynyddol.	Oherwydd newydd-deb y cynllun gweithredu, nid yw'r cam hwn wedi ei roi ar waith hyd yma. Mae angen trafodaeth bellach i fynd â hyn ymlaen. Menter Iaith i gynnal ei arolygon cyhoeddus ei hun.

9	Aelodau Fforwm Ieuenctid Bwrdeistref Gyfan Merthyr Tudful i barhau i hybu a rhoi cynrychiolaeth gyfartal i bob person ifanc mewn perthynas â'r Gymraeg.	Monitro'n flynyddol trwy'r weithdrefn adrodd	Oherwydd newydd-deb y cynllun gweithredu, nid yw'r cam hwn wedi ei roi ar waith hyd yma
10	Caffael Sicrhau, ble'n bosib, bod prosesau tendro'n holi cwestiynau ynghylch y defnydd o'r Gymraeg yng nghyflenwad gwasanaethau.	Proses barhaus a fydd yn cael ei monitro a'i hadrodd yn flynyddol.	Holl waith papur yn ei le o fewn y broses gaffael.
11	Paratoi cynllun cadarn, gydag amserlen fanwl a chlir, ar gyfer datblygu a chynnal gwefan ddwyieithog.	Cysylltu â Chydlynnydd y Wefan i sefydlu proses fonitro.	O ganlyniad i Archwiliad A17, mae'r wefan yn awr yn ddwyieithog. Mae tudalennau newydd neu newidiadau yn cael eu monitro gan Gydlynnydd y Wefan. Mae Polisi Golygyddol wedi ei greu a'i ddosbarthu i'r holl staff. Mae hwn yn amlinellu'r canllawiau ar gyfer cyfieithu dogfennau a gwybodaeth ar y wefan, yn cynnwys cyfryngau

			cymdeithasol.
12	Cyfieithu tudalennau llywio a chynnwys y wefan yn systematig. Diweddariad am gynnydd bob dau fis	Cysylltu â Chydlynnydd y Wefan i sefydlu proses fonitro.	Mae Cydlynnydd y Wefan yn darparu diweddariad yn y cyfarfod E-Comms misol.
13	Cyhoeddi cyfeirlyfr o staff dwyieithog er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdrin â cheisiadau am wasanaethau Cymraeg.	Dosbarthu gwybodaeth i'r holl staff erbyn Ebrill 2014.	Mae rhestr o staff Cymraeg eu hiaith wedi ei gyhoeddi ar y Fewnrwyd at ddefnydd staff.
14	Cyflwyno'r Cynllun Strategaeth Sgiliau Ieithyddol yn dilyn aildrefnu mewnol.	Bydd yn cael ei gyflwyno yn Ebrill 2014. Bydd yn cael ei fonitro yn barhaus yn ystod ei gyflwyno.	Mae'r Swyddog Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn gweithio gydag adrannau ar hyn o bryd i greu cynllun i sefydlu a chofnodi canfyddiadau yn ôl yr angen.
15	<ul style="list-style-type: none"> Hybu gweithdrefnau cyfieithu Cynhyrchu canllaw clir ar gyfer y broses 	Dosbarthu gwybodaeth i'r holl staff erbyn Ebrill 2014	Yn dilyn yr Archwiliad Adran 17 yn 2012, argymhellwyd bod Polisi Golygyddol yn cael ei greu a'i ddosbarthu i'r holl staff. Mae'r polisi ar gael ar y fewnrwyd. Mae'r ddogfen yn

			<p>amlinellu canllawiau ar gyfer cyfieithu dogfennau a gwybodaeth ar y wefan, yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol.</p>
16	<p>Prynu pecyn e-ddysgu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.</p>	<p>Ymchwilio'r posibilrwydd o gyllid gan amrywiol ffynonellau.</p>	<p>Mae cyllid wedi ei sicrhau trwy'r Gronfa Cydlyniant Cymdeithasol yn 2013/14. Mae'r pecyn e-ddysgu yn cael ei greu ar hyn o bryd ar y cyd gyda 3 cyngor lleol arall – Caerdydd, Caerffili a Rhondda Cynon Taf. Bydd y pecyn yn hollol ddwyieithog pan gaiff ei gyflwyno yn 2014/15.</p>
17	<p>Darparu cyfleoedd hyfforddi i'r holl staff i ddysgu neu wella eu sgiliau Cymraeg.</p>	<p>Fel sy'n cael ei nodi yng nghyflwyniad y Strategaeth Sgiliau Ieithyddol. Yn ôl y gofyn gan staff unigol</p>	<p>Mae staff yn cael cynnig sesiynau Cymraeg yn flynyddol. Mae sesiynau'n cael eu darparu gan Cymraeg i Oedolion o fis Medi tan fis Mehefin. Yn dilyn asesiad o sgiliau staff, bydd staff rheng flaen perthnasol yn cael eu hannog</p>

			i ddysgu Cymraeg yn y dyfodol.
18	Cyhoeddi datganiad clir ar y defnydd o'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol, fel Facebook, twitter ac ati	Cynnwys o fewn y Polisi Golygyddol. Dosbarthu i'r holl staff.	Yn dilyn yr Archwiliad Adran 17 yn 2012, argymhellwyd bod Polisi Golygyddol yn cael ei greu a'i ddosbarthu i'r holl staff. Mae'r polisi ar gael ar y fewnwyd. Mae'r ddogfen yn amlinellu canllawiau ar gyfer cyfieithu dogfennau a gwybodaeth ar y wefan, yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol.

Sgiliau Cymraeg Staff

Maes Gwasanaeth a Lefel Cymhwysedd

Cyfarwyddiaeth	Gwasanaeth	Adran	Darllen	Ysgrifennu	Siarad
Gwasanaethau Cwsmeriaid	Peir, Priff a Thrafnidiaeth	Priffyrdd a Draenio	Y	Y	Y
Gwasanaethau Cwsmeriaid	Hamdden, Diwylliant a'r Amgylchedd	Hamdden	Y	Y	Y
Gwasanaethau Cymunedol	Adfywio Cymdeithasol	Gwasanaethau Cymunedol	Y	Y	Y
Gwasanaethau Cymunedol	Gwasanaethau Plant	Gwasanaethau Gweithredol – Gwasanaethau Cymdeithasol Plant	Y	Y	Y
Gwasanaethau Cwsmeriaid	Rheoli Gwastraff	Gwastraff / Ailgylchu			
Gwasanaethau Cymunedol	Gwasanaethau Oedolion	Gweithgareddau Dydd			
Gwasanaethau Cymunedol	Gwasanaethau Oedolion	Gwasanaethau Llety	Y	Y	Y
Gwasanaethau Cymunedol	Adfywio Cymdeithasol	CPI Pentrebach	Y	Y	Y
Gwasanaethau Cwsmeriaid	Tai a Diogelwch y Cyhoedd	Masnachu Teg	Y	Y	Y
Gwasanaethau Cwsmeriaid	Cynllunio Trefol	Rheoli Adeiladu a Datblygu	Y	Y	Y
Gwasanaethau Cymunedol	Addysg	Tîm Cymorth i Ysgolion	Y	Y	Y
Prif Weithredwr	Perfformiad, Partneriaethau ac Archwilio	Perfformiad	Y	Y	Y
Gwasanaethau Cymunedol	Gwasanaethau Oedolion	Tîm Rheoli Iechyd Oedolion	Y	Y	Y

Gwasanaethau Cymunedol	Gwasanaethau Oedolion	Asesu a Rheoli Gofal	Y	Y	Y
Gwasanaethau Cymunedol	Diogelu Ansawdd Perfformiad	Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Y	Y	Y
Prif Weithredwr	Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd	Cyfreithiol	Y	Y	Y
Gwasanaethau Cymunedol	Adfywio Cymdeithasol	Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Y	Y	Y

Sgiliau Cymraeg Staff

Yn ôl dadansoddiad Graddfa ac Adran

	NJC Gradd. 2 pwynt 10	NJC Gradd. 2 pwynt 14	NJC Gradd. 3 pwynt 17	NJC Gradd. 3 pwynt 20	NJC Gradd. 3 pwynt 21	NJC Gradd. 3 pwynt 22	NJC Gradd. 4 pwynt 24	NJC Gradd. 5 pwynt 28	NJC Gradd. 6 pwynt 31	NJC Gradd. 7 pwynt 33	NJC Gradd. 8 pwynt 39	NJC Gradd. 8 pwynt 41	NJC Gradd. 8 pwynt 42	NJC Gradd. 9 pwynt 46	Cyfans.
Gwasanaethau Oedolion					1		1				1	1	1		5
Gwasanaethau Llety							1								1
Tîm Rheoli Iechyd Oedolion											1				1
Asesu a Rheoli Gofal												1	1		2
Gweithgareddau Dydd					1										1
Gwasanaethau Plant			1			1									2
Gwasanaethau Gweithredol – Gwasanaethau Cymdeithasol Plant				1		1									2
Addysg										1					1
Tîm Cymorth Ysgolion										1					1
Peir, Priff a Thrafnidiaeth	1														1



MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL



MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

Welsh Language

Annual Monitoring and Improvement Report

2013 - 2014

Prepared in accordance with the requirements of



Welsh Language Commissioners Office

30th June 2014

Contents

	Page
Introduction	3
Frontline Services	4 – 11
Management and Administration of the Welsh Language Statement	12 - 15
Mainstreaming of the Welsh Language	16 – 17
Performance Analysis	18 – 20
<u>Appendix 1</u>	
Compliance with the Welsh Language Statement	21 – 27
<u>Appendix 2</u>	
Staff Welsh Language Skills - Service Area & Level of Competency	28 – 31

Introduction

This Monitoring and Improvement report reflects the work undertaken during the financial year 2013/2014.

The Council has one member of staff leading on Welsh Language issues. This post is supported by an Elected Champion Member, Councillor Ernie Galsworthy. There are also other staff in the authority with responsibilities for local Welsh Language issues.

The Equalities and Welsh Language Officer is working with the Authority's Welsh Language Champion to deliver the Welsh Language Measure, forthcoming Standards, actions arising from the revised Welsh Language Statement and past compliance investigation recommendations. The current Welsh Language Statement and action plan was approved by Full Council in January 2014.

This report, taken in full, will demonstrate that during a period of change progress has been made.

The annual report is available to download on the Council's website on the Welsh Language page at www.merthyrtydfil.gov.uk

Frontline Services

Civic Centre & Unit 5 Reception areas

